HSCCLD25

# Cefnogi unigolion gyda gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn amlinellu’r gofynion ar gyfer yr adegau pan fyddwch yn cefnogi unigolion i gyflawni gweithgareddau sydd wedi’u nodi yn eu cynllun gofal neu gymorth. Mae hyn yn cynnwys cyflawni'r rôl y gwnaethoch gytuno iddi, rhoi adborth a chyfrannu at ddiwygiadau ar gyfer y gweithgareddau rydych chi’n gyfrifol amdanynt.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i gefnogi unigolion gyda gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am unigolion a gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gadarnhau'r canlyniadau y bydd y gweithgareddau'n anelu at eu cyflawni yn unol â chynlluniau gofal neu gymorth
4. gweithio mewn partneriaeth i gytuno ar sut y bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal i gefnogi dewisiadau ac anghenion unigolion
5. cefnogi unigolion i nodi ac i gael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau neu'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt ar gyfer gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
6. cyflawni gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth o fewn eich rolau a'ch cyfrifoldebau
7. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion mewn perthynas â gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
8. cefnogi unigolion ac eraill i roi adborth ar sut mae gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth yn cwrdd â'u dewisiadau, eu hanghenion a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt
9. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gyfrannu at unrhyw newidiadau i weithgareddau cynllun gofal neu gymorth
10. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
11. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i roi cymorth i unigolion gyda gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion a gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth, a'i hadolygu
2. sut mae cael gafael ar asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth, a'u dilyn
3. sut mae annog a chefnogi annibyniaeth unigolion mewn perthynas â gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
4. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar weithgareddau cynllun gofal neu gymorth unigolion
5. mathau o wybodaeth, adnoddau a chymorth a allai helpu unigolion yn ystod gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth, a sut i gael gafael arnynt
6. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar weithgareddau cynllun gofal neu gymorth unigolion
7. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all roi cymorth i unigolion mewn perthynas â gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
8. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adolygu a rhoi adborth ar weithgareddau cynllun gofal neu gymorth
9. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth roi cymorth i unigolion gyda'u gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
10. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol yn ystod gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
11. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau unigolion effeithio ar weithgareddau cynllun gofal neu gymorth
12. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion gyda'u gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
13. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi unigolion â gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
14. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion â gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
15. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion gyda'u gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
16. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i roi cymorth i unigolion â gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth

17. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi yn ystod gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth
18. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gynorthwyo unigolion â gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth, a sut i fynd i'r afael â hyn
19. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gynorthwyo unigolion â gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi unigolion gyda gweithgareddau cynllun gofal neu gymorth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD25 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | gweithgareddau, cynllun gofal, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |